# ADRODDIAD Y PENNAETH CYNLLUNIO

## DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

**1. Pwrpas**

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliad Safle y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor Cynllunio.

**2. DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

**2.1** Ar ôl ymgynghori penderfynwyd mai pnawn dydd Mawrth **3ydd Gorffennaf 2001** sydd fwyaf addas. Trefnwyd y dyddiad yn amodol.

**2.2** Cynghorir chi felly y cynhelir unrhyw ymweliad safle ddydd Mawrth **3ydd Gorffennaf 2001 (pnawn - nodir yr amser yn nês ymlaen).**

**3. AELODAETH Y PANEL YMWELIAD SAFLE**

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol gan gynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Aelod(au) Lleol perthnasol.

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1 Bod Aelodau yn cytuno i gynnal yr Ymweliad Safle ddydd Mawrth 3ydd Gorffennaf 2001**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**- 27 MEHEFIN 2001**

## ADRODDIAD GORFODAETH CYNLLUNIO

**EITEM :**

**CYFEIRNOD:** ENF/466/00/N

**LLEOLIAD:** 79 Stryd Fawr, Prestatyn

**ANGHYSONDEB:** **Blaen siop heb awdurdod a gosod 2 arwyddfwrdd mewnol goleuedig heb ganiatad.**

**CYFYNGIADAU :** Ardal Gadwraeth Prestatyn

## POLISIAU AC ARWEINIAD CYNLLUNIO PERTHNASOL :

CYNLLUN RHUDDLAN / RHUDDLAN BOROUGH LOCAL PLAN:
Policy C3 - Control of development in Conservation Areas

CYNLLUN CLWYD / CLWYD COUNTY STRUCTURE PLAN: FIRST ALTERATION:
Policy G3 - New development in Conservation Areas

SIR DDINBYCH / DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL UNITARY DEVELOPMENT PLAN (Deposit Version)
Policy CON6 - Development within Conservation Areas
Policy CON9 - Advertisement in Conservation Areas
Policy GEN7 - Development Control requirements
Policy GEN13 - Advertisement within development boundaries

LLYWODRAETH / GOVERNMENT GUIDANCE:
Planning Guidance (Wales): Planning Policy: First Revision April 1999
Technical Advice Note (Wales) 7: Control of Outdoor Advertisements
Technical Advice Note (Wales) 9: Enforcement of Planning Control
Welsh Office Circular 61/96: Planning and the Historic Environment: Historic Buildings and Conservation Areas

HAWLIAU DYNOL / HUMAN RIGHTS CONSIDERATIONS:
From 2nd October 2000 the provisions of the Human Rights Act 1998 are taken into account when considering taking enforcement action against unauthorised development and when considering taking legal action against the unauthorised display of an advert.

**GWYBODAETH CEFNDIR:**

1. Yn Rhagfyr 2000 gwelwyd bod blaen siop newydd a 2 arwydd goleuedig mewnol wedi'u gosod ar 79 High Street, Prestatyn.

2. Cynghorwyd y perchennog bod angen caniatad cynllunio.

3. Gwnaed cais cynllunio hwyr i gadw blaen y siop (Code No 43/2000/1153/AC) a'r ddau arwydd fascia (Ref: 43/2000/1154/AD).

4. Adroddwyd i Bwyllgor 31 Ionawr a phenderfynwyd gohirio'r cais er mwyn cael addasiad i'r cynllun
5. Trafodwyd mân addasiadau a chyflwynwyd cais gwahanol gan gynnwys nodweddion plastig.

6. Nid oes digon o wahaniaeth yn y cais rhwng y cynllun a wrthodwyd, ymddangosiad a defnyddiau blaen siop.

7. Hefyd cyflwynwyd mân addasiadau i'r arwyddion fascia. Mae'nt yn dal yn annerbyniol.

8. Argymhellir gwrthod y ddau gais oherwydd eu hymddangosiad annerbyniol a'u heffaith ar Ardal Gadwraeth Prestatyn.

9. Os gwrthodir y ceisiadau i'r blaen siop a'r 2 arwydd fascia, yna gan fod y gwaith eisoes wedi'i wneud bydd angen awdurdod gorfodi i symud y blaen siop a chamau erlyniad i sicrhau symyd y 2 arwydd hysbysebu di awdurdod.

**2. Rheswm :**

10. Gosodwyd y blaen siop di awdurdod o fewn y 4 blynedd ddiwethaf.

11. Mae'r blaen siop yn niweidio'r adeilad a'r Ardal Gadwraeth heb ddigon o fanylion ac mae'r lliw a'r gorffeniad yn gwaethygu hynny. Felly o ran cynllun a defnyddiau nid yw'n gadwriaethol nac yn gwella ymddangosiad yr Ardal ac mae'n groes i Bolisi C3 ( Rhuddlan Borough Local Plan), a Pholisi G3 ( Clwyd County Structure Plan: First Alteration and Policy CON6) a GEN7 (Denbighshire County Council Unitary Development Plan (Deposit Version)).

12. Ni fyddai gosod amodau fel rhan o'r caniatad cynllunio i gadw'r blaen siop yn dileu'r gwrthwynebiadau hyn.

**3. Rhesymau :**

13. Mae'r 2 arwydd fascia yn ddi awdurdod o dan y Rheoliadau (Town and Country Planning (Control of Advertisements) Regulations 1992).

14. Mae'r arwyddion yn annerbyniol oherwydd eu cynllun, maint a defnydd sydd ddim o fewn cymeriad (Prestatyn Town Centre Conservation Area) a Pholisiau CON 9 a GEN13 (Denbighshire County Council Unitary Development Plan (Deposit Version)), a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig ) Government Guidance in Welsh Office Circular 61/96 and Technical Advice Note (Wales) 7).

**4. ARGYMHELLIAD:**

15. Rhoi awdurdod i'r canlynol : -

(i) rhoi rhybudd gorfodi i ddileu blaen siop diawdurdod;

(ii) dechrau camau erlyn neu gamau priodol eraill o dan y Ddeddf Gynllunio yn erbyn y person neu bersonau y cymerir camau yn eu herbyn os byddant yn methu cadw at y gofyniad;

(iii) dechrau camau o dan Ddeddfau Cynllunio gan gynnwys rhybudd (Discontinuance Notice) os bydd angen i symud y 2 arwydd fascia.

# ADRODDIAD PENNAETH CYNLLUNIO
## FFERMYDD GWYNT ARFAETHEDIG ODDI AR Y TRAETHAU

**1. Pwrpas**

1.1 Cynghori Aelodau am y sefyllfa gyfredol am ffermydd gwynt oddi ar y traeth ar arfordir Gogledd Cymru.

**2. Cefndir**

2.1 Fel rhan o bolisi'r llywodraeth i gynyddu cyfraniad cyflenwad trydan o ffynonellau y gellir eu hadnewyddu mae'r potensial i bwer gwynt wedi ei ystyried. Derbynnir y bydd angen datblygu egni gwynt ar y traeth ac oddi ar y traeth i gyfarfod targedau'r llywodraeth.

2.2 Mae'r llywodraeth trwy Stadau'r Goron wedi rhoi opsiynau i nifer o gwmniau i ymchwilio i safleoedd penodol o amgylch arfordir Prydain. Mae dwy o'r safleoedd hyn oddi ar arfordir Gogledd Cymru.

**3. SAFLEOEDD GOGLEDD CYMRU**

3.1 Y safleoedd yw :

(i) Fferm wynt (The North Hoyle Offshore Wind Farm by National Wind Power (NWP))
(ii) Fferm wynt (Rhyl Flats by Celtic Offshore Wind Limited (COWL)).

3.2 Rhagwelir y bydd y ddau brosiect yn cynnwys adeiladu a rhedeg tua 30 o dyrbeiniau gwynt. Atodir cynllun lleoliad i nodi lleoliad tebygol y prosiectau.

**4. CYDSYNIAD**

4.1 Mae trefn cydsyniad egni gwynt oddi ar y traeth dan arolwg. Nid oes mesurau cynllunio traddodiadol i ffermydd gwynt oddi ar y traeth gan y byddent tu hwnt i farc llanw isel. Er hynny byddai angen i unrhyw infrastructure ar y traeth gael y caniatad cynllunio arferol. Mae gwahanol ddeddfwriaethau am waith oddiar y traeth yn dod o dan warchodaeth amgylcheddol, gwarchod yr arfordir, a deddfau trydan. Mae'r posibilrwydd o gydsyniad sengl (single consent procedure) yn cael ei ystyried.

4.2 Byddai'r ddwy safle angen asesiad amgylcheddol ac mae gwaith eisoes wedi'i wneud gan y cwmniau mewn ymgynghoriad â chyrff statudol i ystyried asesiadau o'r fath .

## 5. RHAGLEN AT Y DYFODOL

5.1 Rwy'n deall mai'r tebygrwydd yw y cyflwynir ceisiadau ffurfiol am y prosiect ryw dro yn y flwyddyn 2002 ond ni chynllunir adeiladu hyd 2003 neu 2004.

5.2 **Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth i Aelodau.** Byddaf yn rhoi gwybodaeth i Aelodau wrth i faterion ddatblygu.